# Aflibercept i drin neofasgwlareiddio coroid

1 Tachwedd 2017

Mae aflibercept (Eylea) ar gael ar y GIG fel triniaeth ar gyfer neofasgwlareiddio coroid myopig mewn oedolion.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## *Gwybodaeth a chymorth*

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Fight for Sight, 0207 264 3900
- Y Gymdeithas Facwlaidd, 0300 303 0111
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion, 0303 123 9999.

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2716-6

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights